CYNGOR CYMUNED LLANENGAN

Clerc – Einir Wyn – *Clerk*
Fferm Cae Du, Aber-soch, PWLLHELI, Gwynedd. LL53 7HT
Ffôn: (01758) 712434
E-bost: clerc@cyngorcymunedllanengan.cymru
Gwefan: www.cyngorcymunedllanengan.cymru

Mawrth 6ed, 2019

Annwyl Aelod,

Gwysir chi fod yn bresennol yng Nghyfarfod Misol y Cyngor **nos Fercher, Mawrth 13eg, 2019** yng Nghanolfan Llanengan am saith o'r gloch.

RHAGLEN

1. Croeso ac Ymddiheuriadau
2. Datgan Buddiant Personol
3. Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc)
4. Cadarnhau Cofnodion – Chwefror 13eg, 2019
5. Ceisiadau Cynllunio (gweler rhestr drosodd)
6. **Materion yn Codi o'r Cofnodion**:
   i) 5a) Toiledau Cyhoeddus
   ii) 5ch) 13. Gohebiaeth: ch) Menter Môn – Wi-Fi Cymunedol Cyhoeddus
   iii) 5d) 13. Gohebiaeth: c) O Ddrws i Ddrws – Cais am Ariannu Gwasanaeth i Drigolion Plwyf Llanengan – Disgwylir Swyddog i'w drafod
7. **Mynwent** –
8. **Caeau Chwarae –** Offer newydd Cae Chwarae Aber-soch; Trac Beiciau Cae Chwarae Mynytho; Archwilio Coed yr Allt a Chae Chwarae Aber-soch
9. **Cyfrifon –** Archwiliad 2018 – 2019 BDO/Asesiad Risg ac Arbrawf Rheolaeth Ariannol**;** Mainc Sarn Bach a Bwlchtocyn; Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol: Awgrymiadau'r Is-bwyllgor Ariannol
10. **Materion Cynllunio** – Ymholiadau Cynllunio/Gorfodaeth; Sied Amaethyddol Cim, Bwlchtocyn; Dymchwel y Shanty, Pen Bennar; Cwrs Cymorth Cynllunio Cymru; Apêl Bryn Rhedyn, Bwlchtocyn; Canllawiau Cynllunio Atodol: Ail-adeiladu Tai a Throsi Adeiladau yng Nghefn Gwlad ac Ymrwymiadau Cynllunio
11. **Materion Priffyrdd a Bwrdeistrefol** – Biniau Baw Cŵn; Enw Stad Cornwall, Mynytho; Golau Stryd; Biniau Halen; Parcio o flaen Ysgol Foel Gron; Rhaglen Waith mis Mawrth
12. **Materion Hawliau Tramwy** – Torri'r Llwybrau; Llwybr y Shanty; Llwybr y Morwyr (Rhifau 42 a 51)
13. **Gohebiaeth**:

a) ***Un Llais Cymru (ULlC)*** – Bwletin mis Chwefror; Aelodaeth 2019 – 2020; Pwyllgor Ardal Arfon Dwyfor;
b) ***Llywodraeth Cymru –*** Cefnogaeth Ariannu ar gael 2019 – 2020;
c) Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru – Arolwg Cymru Gyfan – Gwasanaethau Tu Allan i Oriau Meddygon Teulu 2019
ch) Ysgol Sarn Bach – Cerdyn Diolch
d) Clwb Moduro Harlech a'r Cylch – Rali Goffa Merfyn Hughes/Rali Llŷn – Mawrth 23-24ain, 2019
dd) Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig – Odyn Galch, Lôn Pen Cei, Aber-soch
e) Jill Evans, Aelod Ewropeaidd/Cadeirydd CND Cymru – Dim Claddu Gwastraff Niwclear yng Nghymru

14. Dyfarniadau Cynllunio
15. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau
16. Dyddiad y Cyfarfod nesaf – nos Fercher, Ebrill 10fed, 2019

Yn gywir,

Einir Wyn

EINIR WYN
Clerc

Amg.

CEISIADAU CYNLLUNIO I'W TRAFOD YNG NGHYFARFOD MIS MAWRTH

RHIF	RHIF Y CAIS	DISGRIFIAD
1	C19/0119/39/LL	Trosi adeilad allanol yn anecs hunan gynhaliol – **Cefn, Llanengan**
2	C19/0128/39/LL	Estyniad deulawr i flaen yr eiddo ac addasiadau i'r ffenestri gromen blaen presennol – **Faircross, Lôn Rhoslyn, Aber-soch**
3	C19/0150/39/LL	Estyniad unllawr ochr – **3 Stád Cornwall, Mynytho**
4	C19/0182/39/LL	Estyniad unllawr ar flaen eiddo **– Tŷ Newydd, Mynytho**
5	C19/0185/39/LL	Diwygio Amod 3 ar ganiatâd cynllunio C16/1578/39/LL er adeiladu'r datblygiad, yn unol â chynllun diwygiedig – **Glenville, Aber-soch**